**CYFARFOD Y CYNGOR - 10 CHWEFROR 2020**

**DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL SYDD WEDI'I NODI YN EITEM 9.B O AGENDA'R CYNGOR**

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, H. Fychan, D. Grehan, E. Griffiths, J. Williams, A. Cox, S. Rees-Owen, M. Weaver, G. Davies, E. Webster, A. Chapman, S. Evans, J. Cullwick, J. Davies, K. Morgan, L. Jones ac E. Stephens:-

Mae'r Cyngor yma'n yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol, sy'n nodi'r cynnig canlynol i'w ystyried:

*{Dileu: ~~Y dylai unrhyw gwestiynau a gaiff eu cyflwyno ar gyfer cyfarfod y Cyngor llawn gael eu gwrthod os oes modd dod o hyd i'r ateb yn hawdd ar wefan y Cyngor, neu os yw'r Gwasanaethau i Gynghorwyr wedi darparu'r wybodaeth yma i Gynghorwyr eisoes yn ystod y chwe mis diwethaf. Wedyn, dylid cyfeirio'r Aelod at yr wybodaeth berthnasol sydd ar gael yn hawdd~~}*

{Mewnosod: *Cyflwynir y cynnig yma o ganlyniad i'r cwestiwn heb ei ateb a gyflwynwyd ar 11 Tachwedd 2020 ynghylch trefniadau holi cwestiynau.*

*Mae'r Cyngor yma'n yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol, sy'n nodi'r protocol arfaethedig o ran derbyn Cwestiynau gan Aelodau a'u hateb. Bydd yr adroddiad yma yn cynnwys pa mor briodol neu amhriodol yw gwrthod cwestiwn trwy gymhwyso rheol 6 mis sy'n rhan o'r protocol y dibynnir arno yn rheol gweithdrefn 14.1 a 14.2 ar gyfer gwrthod cynigion coll neu i ddiddymu penderfyniad blaenorol y Cyngor.*

*Mae eisoes rheolau ar gyfer sesiynau holi ac ateb mwy cynhyrchiol a ddylai ddileu dyblygu ac ailadrodd, ond ni chânt eu dilyn yn gyffredinol.*

*Nodir y rhain yn Rheol gweithdrefn 9.5 y Cyngor hwn, sy'n ymwneud ag ateb cwestiynau a all fod ar ffurf (b) pan fo'r wybodaeth a ddymunir mewn cyhoeddiad gan y Cyngor neu waith cyhoeddedig arall, cyfeirir at y cyhoeddiad hwnnw. Bydd ateb o'r fath yn ddigonol ond ni ddibynnir arno byth. Yn lle hynny, mae ymatebion hir sy'n dibynnu ar wybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol, yn gyffredin. Mae hyn yn ei dro hefyd yn lleihau'r cyfle i ofyn rhagor o gwestiynau yn y slot 20 munud a neilltuwyd ar gyfer Cwestiynau'r Aelodau.*

*Fel nad oes amheuaeth o ran cymhwyso rheol 9.6 sy'n ymwneud â chwestiynau atodol, mae hawl awtomatig i ofyn cwestiwn o'r fath yn ôl y Cyfansoddiad yn amodol ar ofyn ac ateb y cwestiwn cyntaf}.*

*Diben a phwrpas y cynnig yw symleiddio a chynyddu'r cyfleoedd i Aelodau graffu ar Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau, trwy eu holi am faterion manwl neu*

*ddiweddariadau ar faterion y gallent fod â chyfrifoldeb ac atebolrwydd drostynt, ond nad ydynt wedi cael eu gwneud yn hysbys yn gyffredinol neu'n gyhoeddus.*

*Dyma'r rhesymeg o ofyn bod adroddiad Swyddog yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol er mwyn adolygu ac adnewyddu'r rheolau sy'n ymwneud â Chwestiynau Aelodau, os yw'n briodol}.*

**Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:**

Mae'r Cyngor yma'n yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol, sy'n nodi'r cynnig canlynol i'w ystyried:

Cyflwynir y cynnig yma o ganlyniad i'r cwestiwn heb ei ateb a gyflwynwyd ar 11 Tachwedd 2020 ynghylch trefniadau holi cwestiynau.

Mae'r Cyngor yma'n yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol, sy'n nodi'r protocol arfaethedig o ran derbyn Cwestiynau gan Aelodau a'u hateb.  Bydd yr adroddiad yma yn cynnwys pa mor briodol neu amhriodol yw gwrthod cwestiwn trwy gymhwyso rheol 6 mis sy'n rhan o'r protocol y dibynnir arno yn rheol gweithdrefn 14.1 a 14.2 ar gyfer gwrthod cynigion coll neu i ddiddymu penderfyniad blaenorol y Cyngor.

Mae eisoes rheolau ar gyfer sesiynau holi ac ateb mwy cynhyrchiol a ddylai ddileu dyblygu ac ailadrodd, ond ni chânt eu dilyn yn gyffredinol.

Nodir y rhain yn Rheol gweithdrefn 9.5 y Cyngor hwn, sy'n ymwneud ag ateb cwestiynau a all fod ar ffurf (b) pan fo'r wybodaeth a ddymunir mewn cyhoeddiad gan y Cyngor neu waith cyhoeddedig arall, cyfeirir at y cyhoeddiad hwnnw.  Bydd ateb o'r fath yn ddigonol ond ni ddibynnir arno byth. Yn lle hynny, mae ymatebion hir sy'n dibynnu ar wybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol, yn gyffredin.  Mae hyn yn ei dro hefyd yn lleihau'r cyfle i ofyn rhagor o gwestiynau yn y slot 20 munud a neilltuwyd ar gyfer Cwestiynau'r Aelodau.

Fel nad oes amheuaeth o ran cymhwyso rheol 9.6 sy'n ymwneud â chwestiynau atodol, mae hawl awtomatig i ofyn cwestiwn o'r fath yn ôl y Cyfansoddiad yn amodol ar ofyn ac ateb y cwestiwn cyntaf}.

Diben a phwrpas y cynnig yw symleiddio a chynyddu'r cyfleoedd i Aelodau graffu ar Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau, trwy eu holi am faterion manwl neu ddiweddariadau ar faterion y gallent fod â chyfrifoldeb ac atebolrwydd drostynt, ond nad ydynt wedi cael eu gwneud yn hysbys yn gyffredinol neu'n gyhoeddus.

Dyma'r rhesymeg o ofyn bod adroddiad Swyddog yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol er mwyn adolygu ac adnewyddu'r rheolau sy'n ymwneud â Chwestiynau Aelodau, os yw'n briodol